



Cyswllt · Contact  
Ffôn · Telephone  
Ein cyf · Our ref  
Eich cyf · Your ref  
Dyddiad · Date  
e-bost · e-mail

GC/RPW/4/NF/071

4ydd Ionawr 2021

[gethin.corps@eryri.llyw.cymru](mailto:gethin.corps@eryri.llyw.cymru)

PARC CENEDLAETHOL ERYRI  
lle i enaid gael llonodd  
SNOWDONIA NATIONAL PARK  
one of Britain's breathing spaces

Mrs Annwen Hughes  
Plas Uchaf  
Talsarnau  
Gwynedd  
LL47 6YA

Annwyl Mrs Hughes

### Par: Llwybrau Pren Traeth Bennar

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu ein bod yn bwriadu adnewyddu'r ddau lwybr pren (boardwalk) sydd yn nhwyni Traeth Bennar.

Mae'r llwybrau pren wedi eu gosod ers tua ugain mlynedd yn ôl bellach, os nad mwy, ac wedi bod yn fendith i alluogi pobl o bob oedran i gyrraedd y traeth. Gan fod llawer o ddefnydd arnynt mae'n hanfodol bod y llwybrau o safon uchel er mwyn sicrhau diogelwch a mwynhad o'u defnyddio.

Yn anffodus, mae'r llwybrau erbyn hyn wedi dod i ddiwedd eu hoes ac angen cynnal a chadw cyson a chostus i'r Awdurdod. Oherwydd y ffactorau yma rydym wedi penderfynu adnewyddu'r ddau lwybr pren gyda chymorth arian grant gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau diogelwch a mwynhad defnyddwyr y llwybrau am flynyddoedd i ddod.

Nid oes bwriad gwneud unrhyw newidiadau mawr i gynllun y llwybrau Newydd. Bydd maint y llwybrau a'r deunyddiau yn aros yr un fath a bydd y llwybrau yn dilyn yr un cwrs. Yr unig newid posibl yw'r bwriad o osod un canllaw yn hytrach na dau. Bwriad hyn yw er mwyn agor y llwybr i fyny i ddefnyddwyr gan gynyddu'r teimlad o fod yn agos i natur wrth gerdded ar hyd y llwybr drwy'r twyni. Bydd yr un canllaw fydd yn weddill yn parhau i gynnig cymorth i'r rhai sy'n dymuno eu defnyddio.

Rydym yn gobeithio y bydd y Gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Ond er mwyn ein galluogi i gwblhau'r Gwaith bydd angen cau'r llwybrau i'r cyhoedd. Rydym yn ymddiheuro o flaen llawn am unrhyw anghyfleusterau mae hyn yn achosi ond mi fydd hi yn bosibl cyrraedd y traeth gan ddilyn y llwybr lawr o'r maes parcio a throi i'r dde trwy giât fochyn pren, wedyn dilyn y llwybr sydd yn ymuno o'r maes carafanau (Dyffryn Seaside Estate).